CYNGOR BRO LLANFAIRPWLLGWYNGYLL

COFNODION
Cyfarfod 31ain Ionawr 2012

Presennol: Cynghorwyr Alun Mummery (Cadeirydd), Alun Jones (Is Gadeirydd), John Roberts, John A. Edwards, Arfon Williams, Eifion Jones, Ifan Bebb, Gareth C. Jones, Hanna Huws, Bethan Jones.
Cynghorwyr Sirol John P. Williams, Jim Evans.
Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Richard Eames a Gwynfor Parry.

2. Datganiadau o ddiddordeb
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Materion y Cyngor Sir
Cafwyd adroddiad gan J. P. Williams

- Cyllideb 2012/13 - Y Cyngor Sir yn edrych ar arbedion sylweddol a chodiad yn y dreth o tua 5%.
- Ffens y Clwb Bowlio/Trem Eryri - dim ymateb wedi bod gan y Swyddog. Cynigiwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Jones bod y Cyngor Bro yn ysgrifennu at y Comisiynydd sy'n gyfrifol am eiddo/tai gan egluro'r sefyllfa hanesyddol a gofyn am gael ymateb boddhaol yn fuan.

4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion cyfarfod 20/12/11
Derbyniwyd cywiriad - J. P. Williams wedi ymddiheuro am adael yn fuan.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.2 Grid Cenedlaethol – ymgynghoriad yn cymryd lle yn ystod 2012. Dyddiad i'w gadarnhau.

9.1 Pwyllgor Codi Arian i'r Neuadd Goffa - nodwyd bod dros £800 wedi'i dderbyn mewn rhoddion. Cwmni Dewis yn cynnal Astudiaeth Dichonolrwydd. Cyfarfod nesaf 21ain Chwefror am 7.00yh yn y Neuadd Goffa.

13.5 Asesiad Effaith ar Iaith , Wylfa. Heb dderbyn ymateb gan CSYM ers mis Medi 2011. Ysgrifennu at y comisiynydd Alex Aldridge am ymateb.

7.4.1. Pont rheilffordd B4080 – Y Clerc heb lythyru Network Rail eto.

7.4.2. Mynedfa Co-op – y Clerc wedi ysgrifennu at gwmni Co-op i ofyn iddynt ystyried gwneud gwelliannau i'r fynedfa/allanfa.

6. Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 17eg Ionawr 2012
Cynigwyd gan A. Williams ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
2.3. Archwiliad safle chwarae – disgwyl manylion am hyfforddiant gan 'Play Wales' ar sut i gynnal archwiliad. G.C. Jones am gynnal archwiliad yn y cyfamser.

8. Cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 17eg Ionawr 2012
Cynigwyd gan A. Jones ac eilwyd gan G.C. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion
3.2. Grant Harddu Pentrefi - cyfarfod arbennig wedi'i drefnu erbyn 7fed Chwefror. Jackie Lewis o Menter Môn am fynychu i roi cyngor.

10. Cofnodion Pwyllgor Cyllid 17eg Ionawr 2012
Cynigwyd gan A. Mummery ac eiliwyd gan I. Bebb. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

11. Materion yn codi o'r cofnodion
Ceisiadau Rhodd. Cytunwyd i roddi £50.00 i Bapur Menai a £25.00 i'r Urdd, Rhanbarth Ynys Môn.

Cyllideb 2012/13 – cafwyd esboniad o'r amcangyfrif ar gyfer 2012/13. Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan A. Williams i dderbyn y gyllideb a gosod swm y Priseb yn £33,000. Derbyniwyd yr argymhellion.

12. Ceisiadau Cynllunio
31C155A, Argraig, Lôn Foelgraig – dim sylw.
31C64D, Garnedd Wen – dim sylw
C462A/SCR Barn sgrinio 3 Tyrbin 115 medr o uchder yng Nghae Isaf, Pentraeth. Sylw i'w wneud ar sut mae'r trydan yn cael ei drosglwyddo i'r Grid Cenedlaethol. A oes bwriad codi peilonau ychwanegol? Hefyd, oes asesiad effaith amgylcheddol wedi'i gynnal?
Y Clerc i ymateb ar ran y Cyngor Bro.

13. Cyfrifon Mis Ionawr 2012
Cyflwynwyd taenlen mis Ionawr. Cynigwyd gan A. Williams ac eilwyd gan H. Huws. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

14. Gohebiaeth
a) Ymgynghoriad Bil Is Ddeddfau

b) Dau gais i fod yn aelod o'r Cyngor Bro:
1. Alice Thomas
2. Emlyn Parry

Datganwyd diddordeb gan A. Williams gan for Mr Parry yn gefnder llawn i Margaret ei ddiweddar wraig. Penderfynwyd cynnal pleidlais gudd.
Etholwyd Mrs Alice Thomas 5 pleidlais i 4.
Y Clerc i ysgrifennu at y ddau ymgeisydd.

c) CSYM – Canllawiau atodol ynni gwynt ar y tir. Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i ymateb ar ran y Cyngor Bro.

ch) CSYM – ymgynghoriad ar gynigion Cyllideb 2012/13. Ymatebion erbyn 10fed Chwefror.

d) Gwasanaeth Jiwbilî'r Frenhines Elizabeth II- er gwybodaeth.

dd) CSYM - cynnig i osod tair lloches bws newydd, sef, Rhos y Gad, A5 ger yr orsaf rheilffordd a thu allan i'r Swyddfa Bost. Cytunwyd i dderbyn y cynnig a chytuno i gynnal a chadw'r llochesi. Gofyn a oes posib cadw'r rhai o'r paneli a osodwyd yn ddiweddarach ar gyfer atgyweirio yn y dyfodol.

e) CSYM - Cynlluniau'r Cyngor Sir i symud y groesfan pelican o'i leoliad presennol a'i osod ger Penucheldre. Derbyniwyd y cynnig.

15. Unrhyw Fater Arall

1. Gor dyfiant gwrych Tŷ Coch - J. Evans yn delio gyda'r mater.

2. Lôn Penmynydd - pryder ynglŷn â cherbydau'n cael eu parcio ar y palmant lle mae Lôn Penmynydd a Lôn Refail yn ymuno. Y Clerc i gysylltu â'r adran briffyrdd. Nodwyd bod y datblygwr sy'n adeiladu tai newydd ar Lon Penmynydd i fod i wneud gwelliannau i'r gyffordd.

3. Cyfathrebu - Nodwyd gan G.C. Jones bod angen i'r Cyngor Bro gyfathrebu'n well gyda'r cyhoedd. J. Roberts i ysgrifennu erthygl i'w roi ym Mhapur Menai am y safle we. Y Clerc hefyd yn mynd i greu safle 'Facebook'. Dylid hefyd sicrhau bod y cofnodion yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor Bro.

Cyfarfod nesaf Nos Fawrth 28ain Chwefror 2012 am 7.00 yn y Neuadd Goffa.

Arwyddwyd ..... Cadeirydd ..... Dyddiad